


# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2024
## Adroddiad Cam Mis Mehefin

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
62/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
19/07/2024






Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-83625-357-0

© Hawlfraint y Goron 2024

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2024: adroddiad Cam mis Mehefin

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-83625-357-0
19 Gorffennaf 24
© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan Fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

**Cynnwys**

1. Prif Ganfyddiadau ........ 2
2. Cefndir a Methodoleg ........ 4
3. Perfformiad 2024 hyd yn hyn ........ 5
4. Archebion Ymlaen Llaw a Disgwyliadau ........ 9
5. Cynnig Twristiaeth Cymru o'i gymharu â rhanbarthau eraill sy'n cystadlu ........ 19

# 1. Prif Ganfyddiadau

**Dechrau tawel i'r flwyddyn**

1.1 Mae oddeutu un o bob chwech (16%) busnes wedi cael mwy o gwsmeriaid hyd yma eleni o'i gymharu â'r llynedd, ac mae oddeutu hanner (48%) wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 36% wedi cael llai o gwsmeriaid. Teimlir bod tywydd gwael yn ystod y rhan fwyaf o'r gwanwyn yn un o'r prif resymau dros flwyddyn dawel hyd yma, ynghyd â phrinder incwm gwario.

1.2 Atyniadau yw'r sector sy'n perfformio orau, gyda 25% wedi cael mwy o gwsmeriaid hyd yma eleni na'r llynedd a 23% yn cael llai. Ar ochr arall y raddfa, mae darparwyr llety hunanddarpar wedi cael blwyddyn heriol hyd yn hyn, gyda 12% wedi cael mwy o gwsmeriaid na'r llynedd ond 48% wedi cael llai.

1.3 Mae'r dechrau tawel i'r flwyddyn i'w weld ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru.

**Lefelau deiliadaeth y Gwanwyn**

1.4 Roedd deiliadaeth ystafelloedd net yn y sector llety â gwasanaeth yn 61% ym mis Mawrth, 64% ym mis Ebrill a 68% ym mis Mai. Roedd deiliadaeth unedau net yn y sector hunanddarpar yn 59% ym mis Mawrth, 65% ym mis Ebrill a 68% ym mis Mai *(gweler tudalen 7 am ragor o fanylion).*

**Lefelau deiliadaeth yr Haf – disgwyliadau cryf am archebion funud olaf**

1.5 Roedd lefelau deiliadaeth ar adeg y cyfweliadau ar gyfer mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst rhwng 70 a 75% ar gyfer pob un o'r prif sectorau llety (llety â gwasanaeth, hunanddarpar a meysydd carafanau a gwersylla). Roedd nifer o weithredwyr (59%) yn nodi y byddent yn hoffi gweld mwy o archebion ond roeddent yn disgwyl y byddai'r tuedd ar gyfer archebu munud olaf (wedi'i arwain gan dywydd anrhagweladwy, ac i ryw raddau, cwsmeriaid gyda llai o incwm gwario) yn golygu y byddant yn brysurach nag yr oedd lefelau archebion presennol yn ei awgrymu.

**Cwsmeriaid yn dychwelyd yn cefnogi nifer o fusnesau**

1.6 Yr ateb positif mwyaf cyffredin i'r cwestiwn, '*A oes unrhyw resymau penodol i fod yn bositif am y busnes eleni?'* yw *'lefel uchel o gwsmeriaid yn dychwelyd'* (26%). Fodd bynnag, mae 32% wedi ateb, *'does dim byd i deimlo'n bositif yn ei gylch'*.

**Tywydd gwael ar frig y rhestr o bryderon**

1.7 *'Gallai'r tywydd fod yn wael'* (30% yn ddigymell) yw'r pryder a nodwyd amlaf eleni. Mae'r tywydd wedi effeithio ar fusnes yn y gwanwyn, ac felly mae rhai gweithredwyr yn poeni sut y byddai eu busnesau'n perfformio pe byddai tywydd yr haf hefyd yn anffafriol.

1.8 Rhai o'r pryderon eraill a ddaeth i'r amlwg oedd '*Costau gweithredu uchel'* (24% yn ddigymell), '*diffyg incwm gwario gan bobl'* (23%) a *'pholisïau Llywodraeth Cymru'* (22%).

**Hyder i fod yn broffidiol**

1.9 Mae 19% o weithredwyr yn 'hyderus iawn' am redeg y busnes yn broffidiol eleni ac mae 37% yn 'eithaf hyderus'. Ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'r lefel hyder yn gymharol isel gan fod gweithredwyr twristiaeth yn aml yn teimlo ar eu mwyaf gobeithiol wrth i dymor yr haf agosáu.

**Cynnig twristiaeth Cymru o'i gymharu â rhanbarthau eraill sy'n cystadlu**

1.10 Mae'r rhan fwyaf (74%) o weithredwyr yn dweud, yn ôl adborth cwsmeriaid, bod eu rhanbarth o Gymru'n gwneud yn well na chyrchfannau gwyliau eraill yn y DU o ran *'croeso cynnes gan y bobl leol'.* Dim ond 5% sy'n dweud bod cyrchfannau eraill yn y DU yn gwneud yn well o ran hyn.

1.11 Yn yr un modd, ceir canfyddiad bod Cymru'n gwneud yn llawer gwell na chyrchfannau gwyliau eraill yn y DU o ran *'amrywiaeth o lety o ansawdd uchel', 'dewis eang o leoedd da i fwyta,' 'profiad unigryw mewn ardaloedd anghysbell'* ac *'ystod eang o atyniadau ymwelwyr' (gweler adran 5 am ragor o fanylion).*

1.12 Y ddwy brif agwedd lle canfyddir bod cyrchfannau'r DU yn gwneud yn well na Chymru yw *'rhwyddineb teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus'* (roedd 16% yn dweud bod Cymru'n well ond roedd 59% yn dweud bod cyrchfannau eraill yn well), a *'digon o amwynderau o ansawdd uchel mewn mannau twristiaeth poblogaidd'* (roedd 22% yn dweud bod Cymru'n well ond roedd 51% yn dweud bod cyrchfannau eraill yn well). Mae'r tueddiad i gau toiledau cyhoeddus mewn rhannau o Gymru yn fater allweddol o safbwynt amwynderau.

1.13 Ond ar y cyfan, mae gweithredwyr yn teimlo bod cynnig Cymru'n gryf, wedi'i arwain gan ei harddwch naturiol.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Cynlluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar gyfnodau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae’r cam hwn yn edrych ar berfformiad 2024 hyd yn hyn, a lefelau archebion a disgwyliadau am weddill y flwyddyn. Mae pynciau ad-hoc y tro hwn yn cynnwys adborth gan gwsmeriaid ynglŷn â sut mae’r cynnig twristiaeth yng Nghymru’n cymharu gyda chyrchfannau gwyliau eraill yn y DU.

### Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.2 Rydym wedi cynnal 900 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau’r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i ±3.3%. Mae cydbwysedd y sampl fesul rhanbarth a sector yn adlewyrchu'n fras y diwydiant yng Nghymru.


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 85 | 48 | 76 | 40 | **249** |
| Llety hunanddarpar | 71 | 56 | 82 | 39 | **248** |
| Meysydd carafanau / gwersylla | 49 | 25 | 26 | 14 | **114** |
| Hostelau | 4 | 5 | 6 | 2 | **17** |
| Atyniadau | 33 | 28 | 26 | 25 | **112** |
| Gweithredwyr gweithgareddau | 20 | 10 | 13 | 10 | **53** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 20 | 29 | 26 | 32 | **107** |
| **Cyfanswm** | **282** | **201** | **255** | **162** | **900** |

2.3 Mae 59% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r samplau heb eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis, nad ydynt yn cael eu graddio.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 5 a 24 Mehefin.

# 3. Perfformiad 2024 hyd yn hyn

## Perfformiad 2024 fesul sector




### Tywydd anffafriol yn y gwanwyn yn rhwystro twristiaeth

3.1 Mae oddeutu un o bob chwech (16%) busnes wedi cael mwy o gwsmeriaid hyd yma eleni o'i gymharu â'r llynedd, ac mae oddeutu hanner (48%) wedi cael yr un lefel. Fodd bynnag, mae 36% wedi cael llai o gwsmeriaid. Mae gweithredwyr llety hunanddarpar a meysydd carafanau a gwersylla wedi cael blwyddyn arbennig o heriol hyd yma.

3.2 Teimlir bod tywydd gwael am y rhan fwyaf o'r gwanwyn yn brif reswm dros y flwyddyn dawel hyd yma, ynghyd â llai o incwm gwario gan gwsmeriaid.

*"Blwyddyn dawel iawn, iawn"*
Maes carafanau, De-orllewin

*"Mae fy ffigurau oddeutu traean yn is... nid wyf erioed wedi'i chael hi mor wael. Dim haul = dim ymwelwyr, a does dim haul yma. Mae pobl o Loegr yn dod draw ar deithiau undydd i Lanberis, ond nid ydynt yn aros dros nos."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Mae hi wedi tawelu ac wedi bod yn llawer arafach eleni. Rwy'n credu bod pobl yn bryderus iawn am dalu eu biliau."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae'n hynod o anodd i ragweld oherwydd y tywydd. Rydym wedi cael llawer o bobl yn canslo o ganlyniad i ragolygon am dywydd gwael. Rydym yn llawn dros y penwythnos gan fod y tywydd yn braf. Pan mae'r tywydd yn braf, mae'r ffôn yn canu."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

**Ond, mae rhai busnesau wedi troi cornel**


3.3 Er bod busnes wedi bod yn dawel ar y cyfan am y rhan fwyaf o'r gwanwyn, mae rhai busnesau nawr yn gweld cynnydd yn nifer yr archebion.

*"Mae gennym ni dîm grêt yma i fod yn falch ohono. Mae person newydd yn y caffi wedi helpu i ddod â phopeth at ei gilydd. Rydym ni wedi derbyn llawer o archebion ac mae'n edrych yn addawol iawn ar gyfer eleni."*
Atyniad, De-orllewin

*"Roedd hi'n dawel yn y dechrau, yn enwedig dros y Pasg, ond mae'r archebion yn dechrau cyrraedd erbyn hyn"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Rydym ni'n hynod o brysur – llawer prysurach eleni"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

## Perfformiad 2024 fesul rhanbarth



*Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio*


**Dechrau tawel ym mhob rhanbarth**

3.4 Mae'r dechrau heriol i'r flwyddyn i'w weld ym mhob un o'r pedwar rhanbarth.

*"Mae'n ymddangos bod twristiaeth yn ei chael hi'n wael ar hyn o bryd yn gyffredinol. Dydw i ddim yn credu ein bod ni'n ei chael hi'n waeth na neb arall."*
Maes Carafanau, Canolbarth

*"Mae'n dawel iawn eleni. Dyma ein blwyddyn waethaf mewn 35 mlynedd. Rydym ni'n bwriadu newid ein hasiant... i weld a fydd hynny'n helpu."*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

## Lefelau deiliadaeth y gwanwyn




*Gofynnwyd C3 i weithredwyr llety. 'Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio. Mae'r lefelau deiliadaeth a ddangosir wedi'u pwysoli yn ôl maint y busnes.*

### Canfyddiadau tebyg yn ôl sector

3.5 Mae'r tri phrif sector llety wedi perfformio'n debyg i'w gilydd o ran deiliadaeth dros y gwanwyn, gyda chynnydd graddol o fis Mawrth hyd at fis Mai.

3.6 Mae'r lefelau deiliadaeth hyn yn debyg i'r rhai a gofnodwyd y llynedd yn Arolygon deiliadaeth llety Cymru. Fodd bynnag, mae'r dull wedi newid felly dylid bod yn ofalus wrth gymharu. Mae sylwadau agored yn y baromedr yn dangos bod gweithredwyr ar y cyfan yn teimlo bod archebion y gwanwyn eleni yn 'dawel'. Teimlir bod y tywydd gwael yn brif reswm, yn enwedig yn y sector carafanau a gwersylla.

*"Mae mis Mawrth, Ebrill a Mai oddeutu 30% yn llai na'r llynedd"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

*"Nid oedd yn bosibl i ni roi lle i neb dros y Pasg gan fod y cae'n rhy wlyb. Mae ein busnes yn dibynnu ar y tywydd."*
Maes Carafanau, Gogledd

*"Wnaethon ni ddim dechrau'n iawn ym mis Mai gan ein bod ni o dan ddŵr"*
Maes Carafanau, De-orllewin


### Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth

3.7 Roedd lefelau deiliadaeth yng Nghanolbarth Cymru yn y gwanwyn yn is o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Roedd y sector hunanddarpar yn gwneud yn arbennig o dda yn y Gogledd, a'r sectorau llety â gwasanaeth a meysydd carafanau a gwersylla'n gwneud yn dda yn y De-ddwyrain. Mae'r tabl isod yn dangos deiliadaeth fesul rhanbarth a sector ar gyfer misoedd y gwanwyn, sef Mawrth - Mai:

| Deiliadaeth Mawrth - Mai | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sector / Rhanbarth** | **Gogledd** | **Canolbarth** | **De-orllewin** | **De-ddwyrain** | **Cymru gyfan** |
| Llety â gwasanaeth | 64% | 53% | 66% | 70% | 65% |
| Llety hunanddarpar | 76% | 52% | 59% | 64% | 64% |
| Meysydd carafanau a gwersylla | 63% | 52% | 58% | 72% | 61% |

## 4. Archebion Ymlaen Llaw a Disgwyliadau

### Archebion ymlaen llaw (gweithredwyr llety)




*Deiliadaeth gyfartalog sydd wedi'i archebu ar gyfer pob mis ar gyfer y busnesau sy'n derbyn archebion am y mis hwnnw. Mae lefelau deiliadaeth wedi'u pwysoli yn ôl maint y busnes.*

**Disgwyliadau cryf am archebion funud olaf**

4.1 Mae'r siart uchod yn dangos lefelau deiliadaeth ar gyfer y misoedd nesaf ar adeg y cyfweliadau, ond mae'r tuedd cynyddol i archebu ar y funud olaf yn ei gwneud hi'n anodd i weithredwyr ragweld gwir sefyllfa'r misoedd nesaf.

*"Mae'n dawel iawn, iawn. Rydym yn gobeithio am lawer o archebion ar y funud olaf."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae ymddygiad gwesteion wedi newid yn sylweddol – maen nhw'n archebu fwyfwy funud olaf."*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*"Rydym ni'n iawn. Mae pobl yn archebu lle'n hwyrach, felly nid ydym yn poeni'n ormodol."*
Hostel, Gogledd

4.2 Mae tywydd gwael yn ystod y gwanwyn wedi arwain y tueddiad i fwy o bobl archebu ar y funud olaf. Mae rhai gweithredwyr yn teimlo bod cwsmeriaid yn oedi rhag archebu tan maen nhw'n gwybod sut mae'r tywydd yn debygol o fod.

*"Nid yw pobl yn archebu wythnosau bellach. Mae pawb eisiau archeb ar y funud olaf am dri diwrnod. Maen nhw'n dal yn ôl nes bod y tywydd yn edrych yn well neu nes eu bod yn gwneud penderfyniad."*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

4.3 Soniwyd hefyd am yr etholiad cyffredinol ar 4 Gorffennaf. Roedd rhai gweithredwyr yn dweud o brofiad blaenorol bod archebion yn gallu bod yn araf wrth agosáu at etholiad cyffredinol, a chynyddu'n sydyn wedi hynny.

*"Unwaith y bydd yr etholiad wedi bod, rwy'n credu efallai y bydd pobl yn penderfynu mynd ar wyliau... rwy'n credu ei fod yn effeithio ar bethau."*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

**Lefelau archebion da i rai eisoes**

4.4 Mae rhai gweithredwyr eisoes wedi rhoi'r dechrau tawel i'r flwyddyn y tu cefn iddynt ac maent bellach yn gweld lefelau archebion iach ar gyfer yr haf.

*"Dechrau tawel ond mae pethau'n prysuro bob dydd erbyn hyn. Rwy'n credu bod pobl yn sylweddoli eu bod nhw angen gwyliau."*
Maes Carafanau, Gogledd


*"Dechrau tawel i'r flwyddyn... ond mae pethau'n dechrau prysuro erbyn hyn."*
Hostel, De-orllewin

**Gwahaniaethau fesul rhanbarth**

4.5 Fel yn ystod misoedd y gwanwyn, mae'n ymddangos bod lefelau deiliadaeth ar gyfer misoedd brig yr haf, sef Gorffennaf ac Awst, yn edrych yn is yng Nghanolbarth Cymru ar hyn o bryd o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Mae Gogledd Cymru'n gwneud yn arbennig o dda o ran y sector llety hunanddarpar unwaith eto, ac mae De-ddwyrain Cymru'n edrych yn dda yn y sectorau llety â gwasanaeth a'r meysydd carafanau a gwersylla.

| | Deiliadaeth ym mis Gorffennaf ac Awst | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sector / Rhanbarth** | **Gogledd** | **Canolbarth** | **De-orllewin** | **De-ddwyrain** | **Cymru gyfan** |
| Llety â gwasanaeth | 68% | 66% | 75% | 78% | 71% |
| Llety hunanddarpar | 80% | 63% | 71% | 74% | 73% |
| Meysydd Carafanau a Gwersylla | 71% | 64% | 78% | 88% | 74% |

## Bodlonrwydd gyda lefelau deiliadaeth




*Gofynnwyd C5 i weithredwyr llety a oedd ar agor gan roi ffigurau deiliadaeth ar gyfer o leiaf mis yng nghwestiwn 4*

### Cydberthyniad gyda lefelau deiliadaeth

4.6 Mae oddeutu dau o bob pump (39%) gweithredwr llety yn hapus gyda lefelau deiliadaeth presennol ar gyfer y misoedd nesaf. Ar gyfartaledd, mae'r gweithredwyr hyn oddeutu 85 - 90% yn llawn ar gyfer mis Gorffennaf ac Awst.

*"Rydym ni mor brysur ag y byddem wedi'i obeithio"*
Maes Carafanau, Gogledd

4.7 Dywedodd 27% o weithredwyr y byddent yn dymuno cael 'llawer mwy o archebion'. Ar gyfartaledd, mae'r gweithredwyr hyn oddeutu hanner llawn ar gyfer mis Gorffennaf ac Awst. Y gobaith yw y bydd y tuedd ar gyfer archebion ar y funud olaf yn gwyrdroi hyn, yn enwedig os mae'r tywydd yn braf.

*"Mae archebion ar gyfer yr haf yn isel, ond mae hynny i'w ddisgwyl gan ein bod bob amser yn cael archebion munud olaf – yn ddibynnol iawn ar y tywydd"*
Llety hunanddarpar, Gogledd


### Gwahaniaethau fesul rhanbarth a sector

4.8 Mae cyfran y rhai sy'n fodlon gyda'u lefelau deiliadaeth presennol yn amrywio'n sylweddol yn ôl rhanbarth:

- De-ddwyrain (52%)
- Gogledd (43%)
- De-orllewin (36%)
- Canolbarth (28%)

4.9 Nid yw'r canlyniadau'n amrywio'n sylweddol yn ôl sector.

## Disgwyliadau fesul marchnad




*"Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio. Mae maint y sampl yn amrywio fesul marchnad o ganlyniad i wahaniaeth yn nifer y rhesyma 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol'.*

### Disgwyliadau is ar gyfer eleni

4.10 Ar y cyfan, disgwylir i'r tair marchnad eang fod ychydig yn is at ei gilydd o'i gymharu â 2023 (wrth gymharu'r % i fyny a'r % i lawr).

4.11 Yn adroddiad mis Chwefror, roedd cyfran y busnesau a oedd yn adrodd eu bod yn dawelach yn 2023 o'i gymharu â 2022 yn uwch na'r rhai a oedd yn adrodd eu bod yn brysurach. Er bod cwestiwn 6 (uchod) yn seiliedig ar ddisgwyliadau yn hytrach na pherfformiad wrth edrych yn ôl, mae'n ymddangos nad yw busnesau ar y cyfan yn disgwyl cyrraedd lefelau 2022 eleni.

### Pryderon am y tywydd

4.12 Trafodir y pryderon ar gyfer eleni yn fanylach yng nghwestiwn 9, ond mae'r tywydd yn brif reswm dros ddisgwyliadau is ar gyfer marchnad o Gymru a marchnad y DU y tu hwnt i Gymru. Mae rhai'n teimlo y gallai tywydd gwael yn y gwanwyn fod wedi ysgogi rhai i archebu gwyliau i wlad dramor.

*"Mae mwy o bobl eisiau gadael y wlad eleni yn hytrach na mynd ar wyliau yn y DU"*
Maes Carafanau, Canolbarth

*"Nid yw'r tywydd wedi bod yn dda iawn hyd yma, felly mae mwy o bobl yn mynd dramor"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

### Ymwelwyr o dramor

4.13 Mae'r disgwyliadau o ran ymwelwyr o dramor yn gymysg. Mae rhai'n dweud nad ydynt wedi gweld yr un lefel o ymwelwyr o dramor ers y pandemig a Brexit, ac mae gweithredwyr eraill

i'w gweld yn ffynnu. Gallai presenoldeb cryf ar-lein ar wefannau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill chwarae rhan yn hynny.

*"Rwy'n credu y byddwn ni'n gweld mwy o ymwelwyr o dramor gan ein bod yn farchnad unigryw a bod gennym dudalen TikTok eithaf llwyddiannus sy'n cael ei reoli gennyf i. Nid wyf erioed wedi gweld cymaint o ymwelwyr o dramor."*
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

*"Fe wnaethom ni golli llawer o fusnes o Ewrop bum mlynedd yn ôl oherwydd Brexit"*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Rydym ni'n cael mwy o gwsmeriaid o dramor drwy booking.com"*
Llety â Gwasanaeth, Gogledd

**Gwahaniaethau yn ôl sector**

4.14 Mae atyniadau'n fwy gobeithiol na'r sectorau eraill. Dyma eu disgwyliadau o ran cael mwy neu lai o ymwelwyr o bob marchnad:

- Cymru – 23% yn disgwyl mwy o ymwelwyr o'i gymharu â 16% yn disgwyl llai
- Y DU y tu hwnt i Gymru – 28% yn disgwyl mwy o ymwelwyr o'i gymharu â 17% yn disgwyl llai
- Tramor – 29% yn disgwyl mwy o ymwelwyr o'i gymharu â 18% yn disgwyl llai


**Gwahaniaethau fesul rhanbarth**

4.15 Mae busnesau yn y De-ddwyrain yn fwy gobeithiol na'r sectorau eraill. Dyma eu disgwyliadau o ran cael mwy neu lai o ymwelwyr o bob marchnad:

- Cymru – 26% yn disgwyl mwy o ymwelwyr o'i gymharu â 18% yn disgwyl llai
- Y DU y tu hwnt i Gymru – 25% yn disgwyl mwy o ymwelwyr o'i gymharu â 11% yn disgwyl llai
- Tramor – 23% yn disgwyl mwy o ymwelwyr o'i gymharu â 18% yn disgwyl llai

4.16 Mewn cymhariaeth, yn y rhanbarthau eraill yng Nghymru, mae'r % sy'n disgwyl llai yn uwch na'r % sy'n disgwyl mwy o ymwelwyr ym mhob un o'r tair marchnad.

## Hyder mewn rhedeg y busnes yn broffidiol




**Lefel isel o hyder am yr adeg hon o'r flwyddyn**


4.17 Yn hanesyddol, mae gweithredwyr twristiaeth yn aml yn teimlo fwyaf gobeithiol wrth i dymor yr haf agosáu. Er enghraifft, yn adroddiad gwanwyn 2022, atebodd 27% o'r gweithredwyr eu bod yn 'hyderus iawn' yn yr un cwestiwn, ac atebodd 47% eu bod yn 'eithaf hyderus'.

4.18 Eleni, ceir llawer o ansicrwydd. Mae cyfran y gweithredwyr sydd wedi ateb 'dim yn gwybod' ar gyfer y cwestiwn hwn wedi cynyddu o 10% yng ngwanwyn 2022, i 13% yng ngwanwyn 2023, i 22% erbyn hyn. Mae hyn yn dangos tueddiad bod busnesau'n ansicr ynghylch yr hyn sydd i ddod.

4.19 Mae costau gweithredu uchel, dechrau tawel i'r flwyddyn a llai o archebion ymlaen llaw ar gyfer yr haf wedi gostwng lefel optimistiaeth ymysg rhai. Fodd bynnag, mae rhai wedi aros yn obeithiol.

*"Teimlo'n bositif ar y cyfan"*
Hostel, Canolbarth

## Rhesymau i fod yn gadarnhaol




**Mae cwsmeriaid sy'n dychwelyd yn gonglfaen i rai busnesau**

4.20 Ar ôl dechrau heriol i'r flwyddyn, mae cwsmeriaid sy'n dychwelyd wedi darparu lefel sefydlog o fusnes i rai gweithredwyr. Maen nhw'n werthfawr iawn. Dyma'r prif ateb cadarnhaol ym mhob rhanbarth a sector ar wahân i atyniadau, lle mae 'gwell cynnyrch / cynnig' (16%) ac 'ein marchnata ein hunain' (14%) yn cael eu crybwyll yn amlach.

*"Mae ein presenoldeb da ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhoi hyder i ni"*
Atyniad, De-orllewin

*"Rydw i'n dibynnu ar gwsmeriaid yn dychwelyd. Argymhellion gan eraill yw popeth... rydw i wedi bod yn y busnes ers 52 mlynedd."*
Llety hunanddarpar, Gogledd


*"Rydw i mor brysur gan ein bod yn cael cymaint o ymwelwyr yn dychwelyd. Rydw i'n cynnig gostyngiad i westeion er mwyn iddynt archebu eto."*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*"Mae'r busnes yn seiliedig ar gwsmeriaid yn dychwelyd"*
Maes Carafanau, De-orllewin

**‘Does dim byd i deimlo’n bositif yn ei gylch’**

4.21 Er bod rhesymau dros deimlo’n bositif wedi cael eu nodi, mae optimistiaeth y diwydiant wedi lleihau gydag oddeutu traean (32%) o weithredwyr yn ateb *‘does dim byd i deimlo’n bositif yn ei gylch’.* Mae hyn yr un fath â’r hyn a welwyd yn adroddiad mis Chwefror, ac fel o’r blaen, mae’r gyfran yn uwch yng Nghanolbarth Cymru (53%) a llety hunanddarpar (45%).

## Rhesymau dros bryderu




### Pryderon am y tywydd

4.22 Mae tywydd anffafriol yn y gwanwyn wedi atgoffa gweithredwyr pa mor dawel y mae busnesau’n gallu bod dan yr amgylchiadau hyn. Mae hyn wedi gwneud i rai deimlo’n bryderus ynglŷn â’r math o dywydd sydd ar y gweill yng Nghymru yr haf hwn. Gall rhagolygon am dywydd gwael arwain at ddiffyg archebion munud olaf, yn ogystal â chanslo archebion presennol. Mae meysydd carafanau yn arbennig o bryderus am y tywydd - roedd 42% yn dweud hyn.

*"Ar hyn o bryd, rydym yn hapus am nifer yr archebion sydd gennym ni, ond rhag ofn y cawn ni dywydd gwael yn ein rhanbarth, rydym yn disgwyl i rai ganslo."*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

*"Dim ond gwynt a glaw sydd wedi bod ers mis Gorffennaf y llynedd. Rydym ni'n gobeithio am well tywydd er mwyn gael gwersyllwyr munud olaf."*
Maes Carafanau, Gogledd

*"Ni all pobl ddibynnu ar fynd i'r traeth gyda phicnic gwerth £10 os mae'r tywydd yn wael"*
Llety â Gwasanaeth, De-orllewin

**Costau gweithredu uchel ac incwm gwario isel**

4.23 Mae'r ddau fater hwn yn ddwy ochr o'r un geiniog. Mae chwyddiant wedi cynyddu costau rhedeg busnes twristiaeth, ond ar yr un pryd, mae costau byw'r cwsmeriaid eu hunain wedi cynyddu felly nid ydynt yn gallu fforddio talu'r prisiau uwch y mae angen i'r gweithredwyr eu codi'n ddelfrydol.

*"Mae staff eisiau mwy o gyflog; mae'r isafswm cyflog wedi codi ond ni allaf godi fy mhrisiau"*
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

*"Mae costau'n cynyddu. Mae pobl yn teimlo'r wasgfa."*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

*"Rydym ni wedi sylwi ar niferoedd grwpiau'n lleihau gan nad yw pobl yn gallu ei fforddio"*
Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

**Polisïau Llywodraeth Cymru - rhaniad fesul sector yn yr atebion**

4.24 'Polisïau Llywodraeth Cymru' yw'r prif bryder ymysg gweithredwyr llety hunanddarpar (roedd 43% yn dweud hyn). Mae'r pryderon yn is (21%) ymysg y sectorau llety eraill. Ymysg gweithredwyr nad ydynt yn cynnig llety, dim ond 6% sydd wedi nodi hyn fel pryder.

4.25 Y ddau brif bolisi sy'n peri pryder yw'r 'rheol 182 diwrnod', sy'n effeithio ar y sector hunanddarpar yn bennaf, a'r cyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr. Mae'n ymddangos bod pobl yn Lloegr wedi camddeall y newid i'r cyfyngiadau cyflymder ac yn credu ei fod yn berthnasol yn ddiofyn ym mhob ardal (nid yr ardaloedd 30mya blaenorol yn unig).


*"Rydw i wedi derbyn nifer o sylwadau am y rheol 20 milltir yr awr. Mae pobl yn cymryd ei fod yn weithredol ym mhobman. Mae beicwyr wedi mynd i aros yn Lloegr yn hytrach na Chymru."*
Llety hunanddarpar, Gogledd

*"Rydym ni 30% yn is na'r llynedd gan fod y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid yn teithio mewn car ac maent wedi camddeall y rheol 20mya yng Nghymru felly maent yn osgoi dod yma."*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

*"Os na allaf gael 182 diwrnod, dyna pryd y byddaf i'n rhoi'r gorau iddi"*
Llety hunanddarpar, De-orllewin

## 5. Cynnig Twristiaeth Cymru o'i gymharu â rhanbarthau eraill sy'n cystadlu

### Cymru o'i gymharu â chyrchfannau eraill yn y DU




*'Mae atebion 'ddim yn gwybod' a 'ddim yn berthnasol' wedi eu heithrio a'r canrannau wedi'u hailsylfaenu*

### Cyd-destun y canlyniadau

5.1 Gofynnwyd i weithredwyr ateb y cwestiwn uchod yng nghyd-destun adborth gan ymwelwyr. Nid yw hyn yn dweud wrthym beth yw barn y rhai nad ydynt yn ymweld â Chymru, ond mae'n rhoi syniad i ni o ganfyddiad y rhai sy'n dewis ymweld â Chymru o'i gymharu ag ardaloedd eraill yn y DU.

### Croeso cyfeillgar

5.2 Ceir canfyddiad bod Cymru'n fwy cyfeillgar na chyrchfannau eraill yn y DU. Mae hyn yn gyson wir ar draws pob sector a rhanbarth yng Nghymru.

*"Mae pobl sy'n aros... yn aml yn gwneud sylwadau am y bobl leol gyfeillgar yn y dafarn leol"*
Llety hunanddarpar, Canolbarth

*"Rydym ni wedi derbyn llawer o adborth da o ran agwedd gyfeillgar y staff a'r bobl leol"*
Maes Carafanau, Gogledd

**Ardaloedd anghysbell**

5.3 Mae nifer o weithredwyr yn dweud mai'r prif beth sy'n denu pobl i'w rhanbarth yng Nghymru yw'r harddwch naturiol heb ei ddifetha – y mynyddoedd, cefn gwlad a'r traethau. Efallai nad oes llawer o seilwaith, ond mae eu cwsmeriaid yn dod yno oherwydd hynny – i ddianc rhag cyrchfannau twristiaeth prysur mewn rhannau eraill o'r DU. Mae Cymru'n cael ei ystyried yn arbennig o addas ar gyfer cerdded.

5.4 Mae busnesau yng Ngogledd Cymru (67%) a Chanolbarth Cymru (65%) yn fwy tebygol o ddweud bod Cymru'n well o ran yr agwedd hon na busnesau yn y De-orllewin (43%) a De-ddwyrain Cymru (37%).

5.5 Yn ôl sector, mae gweithredwyr gweithgareddau'n sefyll allan gydag 84% yn dweud bod eu rhanbarth nhw o Gymru'n gwneud yn well.

*"Mae Ynys Môn yn gyrchfan hyfryd ac mae'r machlud yn anhygoel"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae pobl yn dod ar gyfer yr arfordiroedd a'r llwybrau prydferth"*
Llety â Gwasanaeth, De-orllewin

*"Golygfeydd hyfryd. Mae De Cymru yn unigryw iawn."*
Maes Carafanau, De-ddwyrain

*"Does dim byd yma  mewn gwirionedd. Mae pobl hŷn yn dueddol o fwynhau mwy gan ei bod hi bob amser yn dawel yma."*
Llety â Gwasanaeth, Canolbarth

**Atyniadau – yn cael eu hystyried yn well yn gyffredinol, ond mae rhai ardaloedd yn ddibynnol ar y tywydd**

5.6 Ceir canfyddiad cyffredinol bod atyniadau yng Nghymru'n well nag mewn rhanbarthau eraill yn y DU, ac mae hynny'n gyson ar draws pob rhanbarth yng Nghymru. Nid oedd ymatebion gan atyniadau eu hunain yn amrywio'n sylweddol o ymatebion o sectorau eraill. Fodd bynnag, ceir gwendid gan fod nifer o atyniadau Cymru – sy'n seiliedig ar natur a harddwch awyr agored – yn ddibynnol ar y tywydd.

*"Mae cymaint i'w wneud yma – cerdded, llynnoedd, traethau – popeth yn ddibynnol ar y tywydd"*
Maes Carafanau, Gogledd

*"Rwy'n credu bod gennym ni lawer i'w wneud yma. Mae pobl i'w gweld yn mwynhau'r atyniadau a thawelwch yr ardal a'r parciau gwledig"*
Llety â Gwasanaeth, De-orllewin

**Lleoedd da i fwyta**

5.7 Ystyrir bod cynnig Cymru o safbwynt bwyd yn gryf, yn bennaf o ganlyniad i'r dewisiadau lleol, ffres. Nid oedd ymatebion gan fwytai, tafarndai a chaffis yn amrywio'n sylweddol o ymatebion ymysg y sectorau eraill.

5.8 Fodd bynnag, mae argaeledd dan fygythiad gan fod bwytai a chaffis yn cau yn gyfan gwbl neu ar ddyddiau penodol mewn rhai ardaloedd gan nad ydynt yn gallu talu eu costau bellach.

5.9 Mae busnesau yng Nghanolbarth Cymru (67%) yn fwy tebygol o ddweud bod Cymru'n llawer gwell o ran lleoedd i gwyra na busnesau yng ngweddill Cymru (52%).

*"Llawer o leoedd da i fwyta o fewn awr o'n lleoliad"*
Llety â Gwasanaeth, Canolbarth

*"Nid ydym yn gwybod i ble i anfon pobl i gael bwyd erbyn hyn. Mae'r holl dafarnau'n cau."*
Maes Carafanau, De-orllewin

*"Mae pobl yn cael trafferth dod o hyd i rywle i fwyta ar ddydd Llun a dydd Mawrth, gan fod llawer o leoedd yn cau ar y dyddiau hynny erbyn hyn"*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

**Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus**

5.10 Un o'r ddau wendid canfyddedig yng Nghymru a amlygir yn y cwestiwn hwn yw diffyg trafnidiaeth gyhoeddus. Mae busnesau ym mhob un o'r sectorau ac ym mhob rhanbarth yng Nghymru yn credu bod cyrchfannau eraill yn y DU yn gwneud yn well o'r safbwynt hwn, yn enwedig yng Nghanolbarth Cymru (roedd 84% yn dweud hyn). Lle mae trafnidiaeth gyhoeddus ar gael, nid yw bob amser yn rhedeg yn aml.

*"Dim ond un bws sydd ar gael sy'n rhedeg bob awr ac nid yw'n rhedeg gyda'r nos"*
Llety â Gwasanaeth, De-orllewin

*"Nid oes bysiau yma ac nid yw'r orsaf drenau'n agos iawn"*
Llety hunanddarpar, De-ddwyrain

*"Gallai trafnidiaeth fod yn llawer gwell. Daeth cwpwl o America i aros ac roedd yn rhaid iddynt logi car i weld yr adar ar y môr oherwydd bod y drafnidiaeth gyhoeddus mor wael."*
Llety â Gwasanaeth, De-orllewin

**Prinder amwynderau mewn ambell le – yn enwedig toiledau cyhoeddus**

5.11 Mae diffyg amwynderau o ansawdd da mewn rhai cyrchfannau twristiaeth prysur yn agwedd arall ar gynnig Cymru sydd angen ei ddatblygu. Mae hon yn farn gyson ar draws pob rhanbarth yng Nghymru ac ar draws pob sector.

5.12 Teimlwyd bod meysydd parcio'n iawn ar y cyfan, ac nid oedd llawer o sôn am broblemau gydag arwyddion. Y prif destun trafod oedd toiledau cyhoeddus. Mae'n debyg bod rhai cynghorau'n eu cau o ganlyniad i'r angen i leihau costau. Nid yw gweithredwyr yn hapus ynglŷn â hyn.

> *"Mae prinder dybryd o doiledau cyhoeddus. Nid oes toiledau o gwbl yn y pentref."*
> Maes Carafanau, Gogledd

> *"Roedd gen i bobl yma'r wythnos ddiwethaf. Aethon nhw i Nolton Haven. Cawsant wybod bod y toiledau agosaf ar draeth Niwgwl. Roedden nhw ar glo. Roedd yn rhaid iddynt fynd i Solfach."*
> Llety hunanddarpar, De-orllewin

**Crynodeb**

5.13 Mae nifer o ymwelwyr yn dod i Gymru oherwydd ei harddwch naturiol heb ei ddifetha. Gallai gor-ddatblygu beryglu hyn; fodd bynnag, gallai buddsoddi mewn rhai agweddau megis trafnidiaeth gyhoeddus a thoiledau wella profiad ymwelwyr.